# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 28 Ebrill 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Agenda
(260)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Diweddariad ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol yng Nghymru - TYNNWYD YN ÔL**

**4 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Fathodynnau Glas (30 munud)**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Diweddariad ar Her Ysgolion Cymru (30 munud)**

**6 Trefn ystyried gwelliannau'r Bil Cynllunio (Cymru) (5 munud)**

**NDM5745 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Cynllunio (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

a) adrannau 2 - 55

b) atodlenni 1 - 7

c) adran 1

d) Teitl Hir

**7 Dadl ar Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2013-2014 (60 munud)**
**NDM5743 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2013-2014

Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2015.

**Dogfen Ategol**
Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2013-2014

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â rhwystrau diwylliannol a allai fod yn atal menywod o leiafrifoedd ethnig rhag rhoi gwybod am drais yn y cartref.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi â phryder bod nifer yr achosion gwrth-semitig wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed yn y DU y llynedd.

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ffigurau sy'n dangos bod 23.5 y cant o aelodau bwrdd cwmnïau FTSE 100 yn fenywod.

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu adroddiad cynnydd am sut y bydd mesurau i sicrhau mynediad cyfartal at ofal iechyd yn cael eu cyflawni ar gyfer pobl sydd wedi colli eu clyw neu eu golwg.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am astudiaeth d dichonolrwydd annibynnol i sefydlu clinig hunaniaeth o ran rhywedd yng Nghymru.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i symud at recriwtio dienw yn y sector cyhoeddus pan fo hynny'n bosibl fel bod pobl yn cael eu barnu ar eu gallu gwirioneddol i wneud swydd.

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i ymgorffori hyfforddiant

ymwybyddiaeth ar sail rhyw ym mhob hyfforddiant proffesiynol Tystysgrif Addysg i Raddedigion a Meistr mewn Addysg a Gyrfaoedd i fynd i'r afael â stereoteipiau rhyw a helpu i greu amgylcheddau dysgu sy'n ymwybodol o ryw ar draws ysgolion Cymru.

**8 Dadl ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol (60 munud)**
**NDM5744 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Mae manylion Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru i'w gweld yn:

http://gov.wales/legislation/programme/?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ar ôl 'Llywodraeth Cymru', mewnosod:

'ond yn gresynu at y diffyg uchelgais ynddo.'

**Gwelliant 2 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod llwyddiant y rhaglen ddeddfwriaethol yn dibynnu ar fecanwaith cyllido cynaliadwy ar gyfer Llywodraeth Cymru.

**Gwelliant 3 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth o fewn gweddill tymor y Cynulliad hwn a fydd yn ei gwneud yn ofynnol bod holl staff meithrinfeydd yn cwblhau cwrs cymorth cyntaf pediatrig a gydnabyddir yn swyddogol.

**9 Cyfnod pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 29 Ebrill 2015